OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1921 (Cy.175) (C.91)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 16 Gorffennaf 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 40 a 44(3) a (5) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y diwrnod penodedig

2. Y diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym yw 1 Medi 2009—

(a) adran 36 (hawl perthynas i wneud cais am orchymyn preswylio);

(b) adran 37 (hyd gorchmynion preswylio);

(c) adran 38 (hawl perthynas i wneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig); ac

(ch) adran 42 ac Atodlen 4 (diddymiadau) i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 12(5) a (6) o Deddf Plant 1989(**2**) ac â diddymu'n rhannol adran 91(10) o'r Ddeddf honno.

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

16 Gorffennaf 2009

(**1**) 2008 p.23.
(**2**) 1989 p.41.